



department for
**culture, media
and sport**

Cynllun Iaith Gymraeg DCMS

2007 - 2011

Ein nod yw gwella ansawdd bywyd pawb, drwy weithgareddau diwylliannol a chwaraeon, drwy gefnogi rhagoriaeth a thrwy fod yn bencampwr y diwydiannau twristiaeth, creadigol a hamdden.

Cynnwys

Ynglŷn â'r Cynllun Hwn	4
Ynglŷn â DCMS.....	5
Cynllunio a darparu gwasanaethau.....	7
Ymdrin â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg	9
Wyneb Cyhoeddus yr Adran	11
Rhoi'r Cynllun ar Waith.....	14
Trefniadau mewnol.....	15

Ynglŷn â'r Cynllun Hwn

O dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 rhaid i bob corff cyhoeddus sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun sy'n nodi sut y bydd yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Mae'r cynllun yn disgrifio sut y byddwn yn gweithredu, cyn belled ac y bo'n briodol yn yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol, yr egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef wrth gynnal busnes cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder yng Nghymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Mae'r cynllun hwn yn cwmpasu'r gwasanaethau hynny rydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru. Yn y cynllun hwn, ystyr y term 'cyhoedd' yw unigolion, personau cyfreithiol a chorfforaethau. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei gyfanrwydd, neu ran o'r cyhoedd, ynghyd ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys sefydliadau gwirfoddol ac elusennau. Mae Cyfarwyddwyr ac eraill sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig hefyd o fewn ystyr y term 'cyhoedd'. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys personau sy'n gweithredu mewn swyddogaeth sy'n cynrychioli'r Goron, y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth. O ganlyniad, nid yw personau sy'n cyflawni swyddogaethau o natur gyhoeddus, er eu bod yn bersonau cyfreithiol, yn dod o dan ystyr y gair 'cyhoedd' wrth iddynt gyflawni'r swyddogaethau swyddogol hyn.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ynghylch cwmpas a phwrpas cynlluniau iaith Gymraeg ar wefan Bwrdd yr Iaith Gymraeg:

<http://www.bwrdd-yr-iaith.org.uk>

Paratowyd y Cynllun hwn o dan Adran 21 y Ddeddf ac yn unol â Chanllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 9 y Ddeddf.

Ynglŷn â DCMS

Nod yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon yw gwella ansawdd bywyd pawb, drwy weithgareddau diwylliannol a chwaraeon, cefnogi rhagoriaeth a bod yn bencampwr y diwydiannau twristiaeth, creadigol a hamdden.

Rydym yn gyfrifol am bolisi'r Llywodraeth ar y celfyddydau, chwaraeon, y Loteri Genedlaethol twristiaeth, llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac orielau, darlledu, y diwydiannau creadigol gan gynnwys ffilm a'r diwydiant cerddoriaeth, rhyddid a rheoleiddio'r wasg, trwyddedu, hapchwarae a'r amgylchedd hanesyddol.

Rydym hefyd yn gyfrifol am restru adeiladu hanesyddol a threfnlennu henebion, trwyddedu nwyddau diwylliannol i'w hallforio, rheoli Casgliad Celf y Llywodraeth ac am Asiantaeth y Parciau Brenhinol. Mae gennym gyfrifoldeb hefyd am gymorth dyngarol adeg erchyllter megis bomio Llundain, ynghyd â thros drefnu'r Ddefod Goffadwriaeth Flynyddol yn y Gofadail yn Llundain.

Ym mis Mai 2005 fe wnaethom ehangu'n cysylltiadau cyfredol i'r diwydiannau creadigol drwy ysgwyddo'r cyfrifoldeb am ddylunio a hysbysebu ffasiwn, a'r celfyddydau, a hynny gan yr Adran Diwydiant a Masnach (DTI). Rydym bellach hefyd yn cydweithio â'r DTI ar faterion dylunio (gan gynnwys noddï'r Cyngor Dylunio) ac ar berthnasau â'r diwydiannau gemau cyfrifiadurol a chyhoeddi.

Blaenoriaethau Strategol yr Adran yw:

Plant a Phobl Ifanc – gwella mynediad i fywyd diwylliannol a chwaraeon llawnach i blant a phobl ifanc a rhoi iddynt gyfle i ddatblygu eu talentau i'r eithaf

Cymuned – Agor ein sefydliadau i'r gymuned ehangach i hybu dysgu gydol oes a chydlyniad cymdeithasol

Economi – uchafu'r cyfraniad y gall y diwydiannau twristiaeth, creadigol a hamdden ei wneud i economi'r DU

Cyflawni – moderneiddio'r ffordd rydym yn darparu'n gwasanaethau drwy sicrhau bod ein Cyrff Noddedig yn gosod targedau sy'n rhoi defnyddwyr yn gyntaf, ac yn eu cyflawni

Y Gemau Olympaidd- Lletya Gemau Olympaidd a Pharalympaidd ysbrydoledig, diogel a chynhwysol a gadael cymynrodd gynaliadwy i Lundain a'r Deyrnas Unedig.

Lluniwyd concordat sy'n diffinio'r gweithdrefnau gweithredol a gweithio rhwng y DCMS a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae hyn yn berthnasol i faterion megis gweithio ar y cyd a chydweithredu rhwng y ddau gorff. Bydd penderfyniadau ar rannu'r cyfrifoldeb am ddarpariaeth iaith Gymraeg yn cael eu pennu mewn ymgynghoriad â Chynulliad Cenedlaethol Cymru a thrwy gyfeirio at y concordat. Mae llawer o feysydd gwaith y DCMS wedi eu datganoli i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, mae DCMS yn cadw

cyfrifoldeb polisi am nifer o feysydd polisi. Mae'r rhain yn cynnwys Trwyddedu Alcohol ac Adloniant Cyhoeddus, Darlledu, Ffilm Cyfraith a Rheoleiddio Hapchwarae a'r Loteri Genedlaethol. Hefyd, mae nifer o gynlluniau'n cael eu cadw e.e. Derbyn yn Lle Treth, Cynllun Indemniad y Llywodraeth, Hawliau Benthylg Cyhoeddus. Adolygir polisiâu newydd wrth eu creu o ran y perthnasedd a allai fod ganddynt i siaradwyr Cymraeg o dan egwyddorion cyffredinol y cynllun hwn.

Prin iawn yw'r gwasanaethau uniongyrchol y mae'r Adran yn eu darparu i'r cyhoedd yn gyffredinol, yng Nghymru ac yng ngweddill y DU. Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau'n cael eu darparu drwy Gyrrff Cyhoeddus Anadrannol (e.e. yr amgueddfeydd a'r orielau cenedlaethol.)

DCMS yw adran nawdd S4C, Awdurdod Sianel Pedwar Cymru. Mae S4C, fel y BBC hithau, yn ddarlledwr ac yn rheoleiddiwr ill dau. Mae S4C wedi'i hariannu'n bennaf drwy grant drwy law'r llywodraeth (gyda refeniw masnachol yn ychwanegu at hynny) ond mae'n annibynnol ar llywodraeth. Corfforaeth Statudol yw'r Awdurdod ac mae'n gweithredu o dan ddarpariaethau Deddf Cyfathrebu 2003. Mae gan S4C ei chynllun iaith ei hun:

<http://www.s4c.co.uk/abouts4c/authority/>

Mae Ofcom yn gorfforaeth statudol. Ef yw rheoleiddiwr annibynnol ac awdurdod cystadlu diwydiannau cyfathrebu'r DU, gyda chyfrifoldebau ar draws gwasanaethau teledu, radio, telegyfathrebu a chyfathrebu diwifr. DCMS a'r Adran Diwydiant a Masnach yw cyd-adrannau nawdd Ofcom. Mae Ofcom yn gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg. Gellir dod o hyd i'w fanylion yn y ddolen hon:

http://www.ofcom.org.uk/cymraeg/swyddfar_cyfryngau/cyhoeddiadau/cigofcom/

Cynllunio a darparu gwasanaethau

Bydd polisïau, mentrau a gwasanaethau DCMS yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg a byddant, lle bynnag y bo'n bosibl, yn helpu cyhoedd Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau bob dydd.

Rhoddir gwybod i bob uwch reolwr DCMS am y cynllun drwy Hysbyseb Swyddfa DCMS i bob aelod o staff. Bydd yr hysbysiad yn rhoi gwybod am y cynllun ac am egwyddorion gwaelodol Deddf yr Iaith Gymraeg. Yr Adran Strategaeth fydd y pwynt cyswllt ar gyfer hysbysu Bwrdd yr Iaith Gymraeg ynghylch cydymffurfiaeth.

Wrth lunio a gweithredu polisïau sy'n effeithio ar Gymru, bydd DCMS yn:

- Sicrhau bod canlyniadau ieithyddol wedi'u hasesu;
- Bod cynnwys y fath bolisïau a mentrau'n gyson â'r cynllun hwn ac nad ydynt yn ei danseilio neu gynlluniau sefydliadau eraill;
- Sicrhau bod y mesurau a gynhwysir yn y cynllun hefyd yn cael eu cymhwyso i bolisïau a mentrau newydd wrth iddynt gael eu gweithredu, yn ogystal ag i bolisïau cyfredol;
- Os ceir bod polisi, codau ymarfer, canllawiau cyfredol, ayb, yn gwrthdaro â darparu Deddf yr Iaith Gymraeg a'r Cynllun ham, byddant yn cael eu hadolygu mor fuan ag sy'n bosibl;
- Hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg lle bynnag y bo'n ymarferol;
- Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd ein dogfennau ymgynghorol yn trafod y berthynas rhwng y Gymraeg a'r polisïau, y mentrau a'r gwasanaethau sy'n cael eu datblygu;
- Symud yr adran yn nes at y nod o gyflawni cydraddoldeb llawn ar bob cyfle;
- Cyfrannu at ddatblygu polisïau neu bolisïau a mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth sy'n cael eu harwain gan sefydliadau eraill mewn ffordd sy'n gyson â'r cynllun hwn;
- Manteisio ar bob cyfle i sicrhau bod deddfwriaeth gynradd ac eilaidd newydd yn cefnogi defnyddio'r Gymraeg.

Darparu gwasanaethau

Bydd gwasanaethau DCMS i'r cyhoedd yng Nghymru'n cael eu darparu yn unol â chynnwys y Cynllun hwn. Byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pan fydd gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg ac yn Saesneg o'r un ansawdd a byddant yn gweithredu i'r un amserlen. Bydd hyn yn cael ei wneud yn eglur pryd bynnag y bydd DCMS yn cyhoeddi datganiadau ar ansawdd gwasanaeth a chyfle cyfartal.

Ein swyddogaethau rheoleiddio a'r Gwasanaethau sy'n cael eu gweithredu ar ein rhan gan drydydd parti

Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd parti sydd wedi eu lleoli y tu allan i Gymru'n gyson â darnau perthnasol y cynllun hwn, pan fo'r cytundebau hynny yn ymwneud â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd hyn yn sicrhau bod trydydd parti yn darparu'r gwasanaethau yn unol â'r cynllun hwn.

Byddwn yn sicrhau bod trefniadau neu gytundebau y byddwn yn eu gwneud gyda thrydydd parti, sydd wedi eu lleoli yng Nghymru, yn gyson â darpariaethau priodol a osodir yng Nghynllun Iaith Safonol Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar gyfer cyrff y goron, pan fod a wnelo'r cytundebau neu'r trefniadau hynny â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru. Byddwn yn cytuno'r darpariaethau hynny â'r trydydd parti dan sylw a chyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Ein Hasiantaethau

Byddwn yn sicrhau bod ein hasiantaethau'n gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Yna, byddwn yn annog iddynt gydweithredu â'r Bwrdd wrth iddynt wneud ac iddynt baratoi eu cynllun iaith Gymraeg eu hunain os bydd y Bwrdd yn gofyn am hynny.

Dyrannu Grantiau a Benthyciadau

Wrth ddyrannu grantiau a benthyciadau ar gyfer gweithgareddau i'w cynnal yng Nghymru, byddwn yn cynnwys amodau sy'n ymwneud â'r defnydd o'r Gymraeg. Wrth wneud hyn, byddwn yn ystyried canllawiau'r Bwrdd ar ddyrannu grantiau a benthyciadau.

Ymdrin â'r Cyhoedd sy'n Siarad Cymraeg

Gohebiaeth

Bydd croeso i aelodau'r cyhoedd sy'n delio â DCMS wneud hynny yn Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Os bydd aelod o'r cyhoedd yn ysgrifennu neu'n anfon cais i'r Adran yn Gymraeg, bydd yr Adran yn:

- Ateb yn Gymraeg
- Yn gwneud hynny, yn achos llythyr a cheisiadau, o fewn yr un dyddiad targed ag ar gyfer y rheini sy'n ymateb yn Saesneg

Bydd DCMS yn cychwyn gohebu yn Gymraeg ag unigolyn, grŵp neu sefydliad, y gwyddys iddynt weithio'n bennaf yn Gymraeg, neu y mae'n well ganddynt dderbyn llythyron yn Gymraeg. Byddwn yn datblygu system i gofnodi dewis iaith y rheini mae'n well ganddynt ohebu â ni yn Gymraeg. Bydd pob gohebiaeth ddilynol yn Gymraeg, oni bai bod yr unigolyn neu'r sefydliad yn dymuno fel arall. Bydd atodiadau a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, lle byddant ar gael. Bydd atodiadau a anfonir gyda llythyrau Cymraeg yn ddwyieithog neu yn Gymraeg, lle byddant ar gael. Bydd yr uchod yn gymwys i ohebiaeth drwy e-bost yn ogystal â gohebiaeth papur. Bydd pob gohebiaeth y byddwn yn ei chyflwyno ar ffurf copi caled yn cael ei harwyddo.

Byddwn yn defnyddio system sgorio, i'r chytuno â'r Bwrdd, er mwyn pennu'n wrthrychol unrhyw ohebiaeth safonol neu gylchlythyrau nad oed angen eu cyhoeddi yn Gymraeg neu'n ddwyieithog (er enghraifft, lle bo'r ohebiaeth yn dechnegol iawn neu'n hir iawn).

Llythyrau ynghylch Penderfyniadau

Os bwriad llythyr penderfyniad yw cyfleu polisi i gynulleidfa ehangach o dipyn na'r rheini sy'n chwarae rhan uniongyrchol yn yr ymholiad, neu weithdrefn statudol arall, bydd DCMS yn ystyried a ddylid ei drin, o dan y cynllun hwn, fel cyhoeddiad.

Cyswllt dros y ffôn

Oherwydd ein lleoliad, ni fyddai'n ymarferol inni gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg. Bydd llinellau cyswllt, neu gyfleusterau tebyg, sy'n rhoi gwybodaeth, gwasanaethau neu

gefnogaeth i'r cyhoedd yn cael eu darparu os bydd gan y mater apêl eang a pherthnasedd i'r cyhoedd yng Nghymru. Lle nad dyma'r achos, byddai pobl sy'n dymuno cyfathrebu â DCMS yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny drwy lythyr neu e-bost.

Cyfarfodydd Cyhoeddus

Anaml y bydd DCMS yn cynnal cyfarfodydd, ymholiadau neu wrandawiadau cyhoeddus. Lle bydd y fath gyfarfodydd o dan arweiniad DCMS yn cael eu cynnal yng Nghymru, darperir offer cyfieithu, oni bai bod DCMS wedi nodi bod yr holl rai sy'n cymryd rhan yn debygol o ddefnyddio'r un iaith. Bydd gwahoddiadau a hysbysebion cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog a byddant naill ai'n nodi y bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael neu'n gwahodd y cyhoedd i roi gwybod i DCMS ymlaen llaw ym mha iaith y dymunant siarad. Bydd DCMS yn rhoi gwybod i fynychwyr cyfarfodydd cyhoeddus pan fydd cyfleusterau cyfieithu ar gael a byddant yn annog cyfraniadau yn Gymraeg. Arfer DCMS fydd darparu papurau a gwybodaeth arall i gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg. Oherwydd ein lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i ni gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ymwneud arall â'r Cyhoedd yng Nghymru

Pan fydd DCMS yn ymgymryd ag arolygon cyhoeddus, yr arfer fydd y bydd pob agwedd ar gyfathrebu â'r cyhoedd yn ddwyieithog. Lle bynnag y bo'n ymarferol, gofynnir i ymatebwyr a fyddant am ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu yn Saesneg. Pan fydd DCMS yn trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau cyffelyb i'r cyhoedd, bydd DCMS yn asesu'r angen i'w darparu yn Gymraeg.

Wyneb Cyhoeddus yr Adran

Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, Arddangosfeydd a Hysbysebu

Bydd cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus a deunydd hysbysebu y bydd DCMS yn eu defnyddio yng Nghymru (er mwyn targedu'r cyhoedd) yn cael eu llunio'n ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os bydd yn rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd.

Bydd unrhyw hysbysebion a roddir yn y wasg Saesneg (neu ddeunydd tebyg) a ddsberthir yn bennaf neu yn gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog, neu byddant yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd, ac yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

Mewn cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith, bydd hysbysebion cyhoeddus yn Gymraeg yn unig. Bydd hysbysebu teledu, sinema a radio'n cael ei gynnal drwy'r Gymraeg a'r Saesneg. Bydd ymgyrchoedd teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod oriau rhaglenni Cymraeg yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio yn ystod oriau radio Cymraeg ar radio masnachol yn Gymraeg. Byddwn yn osgoi defnyddio is-deitlau Cymraeg neu drosleisio hysbysebion i'r Gymraeg (ac eithrio lle na welir y person sy'n siarad).

Bydd llinellau ymateb Cymraeg a dulliau eraill o ymateb i ymgyrchoedd yng Nghymru yn ddwyieithog neu'n cynnwys gwasanaeth ymateb Cymraeg ar wahân.

Cyhoeddiadau

Byddwn yn cyhoeddi deunyddiau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog, yn ddarostyngedig i system sgorio i'w chytuno â'r Bwrdd. Lle bynnag y bo'n rhesymol ac yn gost effeithiol i wneud, byddant yn cael eu cyflwyno fel fersiwn dwyieithog sengl, yn hytrach nag yn Gymraeg a Saesneg ar wahân.

Os bydd yn rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, lle y byddai dogfen sengl yn rhy hir neu'n rhyw swmpus), bydd y ddau fersiwn o faint ac ansawdd cyfartal. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall. Os na fyddant ar gael yn rhad ac am ddim ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad mewn un iaith - a bydd pris y fersiynau Cymraeg a Saesneg yr un peth. Bydd yr uchod hefyd mewn grym i ddeunydd sydd ar gael yn electronig ar ein gwefan, ar CD Rom neu fel arall.

Byddwn yn llunio rhaglen i'w chytuno â Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a fydd yn nodi sut y byddwn yn cynyddu nifer y cyhoeddiadau dwyieithog dros amser.

Gwefannau

Mae DCMS yn defnyddio'r Rhyngrwyd yn gynyddol i ledaenu gwybodaeth. Wrth lunio gwefannau newydd, neu wrth ail-ddylunio'n gwefannau cyfredol, byddwn yn ystyried dogfen y Bwrdd, *Canllawiau a Safonau ar gyfer Meddalwedd Dwyieithog*, ac unrhyw gyngor arall a gyflwynwyd gan y Bwrdd o ran datblygu gwefannau.

Ffurflenni a Deunydd Esboniadol Cysylltiedig

Ein harfer fydd sicrhau bod yr holl ffurflenni ar ddeunydd esboniadol cysylltiedig sydd i'w ddefnyddio gan y Cyhoedd yng Nghymru, yn llwyr ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Bydd hyn yn cynnwys ffurflenni rhyngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefannau.

Lle bo angen ffurflenni rheolau neu reoliadau statudol ar y cyhoedd yng Nghymru, bydd y rhain yn cael eu cynhyrchu'n Gymraeg neu'n ddwyieithog. Lle byddwn yn rhoi gwybodaeth ar fersiynau Cymraeg ffurflenni a anfonir at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg. Lle byddwn yn rhoi gwybodaeth ar ffurflenni dwyieithog a anfonir at y cyhoedd, byddwn yn gwneud hynny'n ddwyieithog, oni bai ein bod yn gwybod y byddai'n well gan y derbynwyr dderbyn y wybodaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg yn unig. Lle y bydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn sicrhau ei bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.

Byddwn yn llunio rhaglen i'w chytuno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i gynyddu nifer y ffurflenni sydd ar gael yn ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

Hysbysiadau Swyddogol, Hysbysiadau Cyhoeddus, Hysbysiadau Recriwtio Staff

Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a roddir mewn papurau newydd Saesneg (neu gyfryngau tebyg) sydd yn cael eu dosbarthu'n bennaf neu yn gyfan gwbl yn Gymraeg yn ddwyieithog, neu yn ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau yn y wasg Gymraeg yn Gymraeg. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran maint, fformat, ansawdd ac amlygrwydd - p'un a ydynt yn cael eu cynhyrchu ar ffurf ddwyieithog neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Yn y cyfryngau Saesneg, gall swyddi lle mae gallu yn y Gymraeg yn hanfodol gael eu hysbysebu'n Gymraeg gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

Gall hysbysiadau recriwtio a roddir mewn cyfnodolion Saesneg (a chyhoeddiadau eraill) a ddosberthir ledled y DU fod yn Saesneg, oni bai bod y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol. Os felly, gall yr hysbysiad fod yn llwyr ddwyieithog, neu yn Gymraeg gyda disgrifiad byr yn Saesneg

Bydd unrhyw hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff a roddir mewn manau eraill yng Nghymru yn ddwyieithog.

Datganiadau i'r wasg â chyswllt â'r cyfryngau

Bydd datganiadau i'r wasg Gymraeg a'r cyfryngau darlledu yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg lle bydd terfynau amser yn caniatáu. Pan fyddwn yn postio datganiadau i'r wasg sy'n delio â materion yng Nghymru, ein harfer fydd eu postio yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Rhoi'r Cynllun ar Waith

Staffio

Ar gyfer swyddi sydd â chyswllt helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru, ystyriwn p'un a ddylai rhuglder yn y Gymraeg fod yn ddymunol neu'n hanfodol – a nodir hyn mewn cymwyseddau a hysbysebion swydd.

Ystyrir anghenion dwyieithrwydd a dealltwriaeth o faterion y Gymraeg wrth benodi i Fyrddau, Paneli neu Dribiwnlysoedd os ydynt wedi eu lleoli yng Nghymru neu os ydynt yn debygol o wneud penderfyniadau ar faterion Cymreig.

Hyfforddiant

Byddwn yn cefnogi ac yn ariannu hyfforddiant i staff sydd, fel rhan o'u dyletswyddau, â chyswllt rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru – ac sy'n dymuno dysgu Cymraeg neu wella eu caffael ohoni. Byddwn yn caniatáu i staff fynychu cyrsiau yn ystod oriau gwaith.

Lle bo'n ymarferol, byddwn yn darparu hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg er mwyn datblygu staff sydd, fel rhan o'u dyletswyddau, â chyswllt helaeth a rheolaidd â'r cyhoedd yng Nghymru.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Byddwn yn darparu ar gyfer yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, ac yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, wrth i ni ddatblygu, dylunio a phwrcasu cynnyrch a systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Wrth i ni ddatblygu'n systemau TGCh, byddwn yn ystyried dogfen y Bwrdd, *Canllawiau a Safonau ar gyfer Meddalwedd Dwyieithog*.

Gweithio mewn partneriaeth

Pan mai ni yw'r arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth ffurfiol, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaethu'r cyhoedd yn cydymffurfio â'r cynllun hwn. Pan fyddwn yn ymuno â phartneriaeth ffurfiol y mae sefydliad arall yn ei harwain, bydd ein mewnbwn i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Pan fyddwn yn bartner mewn consortiwm, byddwn yn annog y consortiwm i gydymffurfio â'r cynllun hwn. Wrth weithredu yn enw'r consortiwm, byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Mae'r uchod ond yn cyfeirio at bartneriaethau ffurfiol sy'n delio â gwasanaethau sydd ar gael i'r cyhoedd yng Nghymru.

Trefniadau mewnol

Cyflwynir y cynllun hwn â chefnogaeth lawn Bwrdd DCMS. Bydd Uned Strategaeth DCMS yn monitro'r cynllun hwn.

Anfonir canllawiau ar weithredu'r cynllun i bob Cyfarwyddwr a Dirprwy gyfarwyddwr a byddant yn gyfrifol am ei weithredu o fewn meysydd eu hawdurdod. Bydd gan bob adran aelod o staff sy'n gyfrifol am ymgynghori ar y cynllun (a chyda'r Adran Strategaeth yn ei swyddogaeth cydlynu.) Byddwn yn penodi uwch aelod o staff i gydlynu'r gwaith angenrheidiol i gyflawni, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.

Byddwn yn paratoi ac yn diweddarau'n barhaus, gynllun gweithredu manwl i'w gytuno â'r Bwrdd, a fydd yn nodi sut y byddwn yn sicrhau y byddwn yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn. Bydd y cynllun gweithredu'n dod i rym ar y dyddiad y daw'r cynllun i rym, neu mor fuan ag sy'n bosibl wedi hynny. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad am y cynnydd yn erbyn pob targed. Nod cyffredinol y cynllun gweithredu fydd sicrhau ein bod yn darparu'r ymrwymadau a nodir yn y cynllun hwn mor fuan ag sy'n bosibl.

Bydd y cynllun yn cael cyhoeddusrwydd mewnol ac i'r cyhoedd yng Nghymru. Fe'i cyhoeddir mewn man amlwg ar ein gwefan. Bydd canllawiau desg cyfredol, neu ganllawiau tebyg y bydd ein staff yn eu defnyddio, yn cael eu haddasu i adlewyrchu'r mesurau a geir yn y cynllun hwn. Byddwn yn sicrhau ein bod ond yn defnyddio cyfieithwyr neu gyfieithwyr ar y pryd i gynorthwyo i ddarparu'r cynllun hwnt. Disgwylwn i'r cyfieithwyr hynny fod yn aelodau o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.

Bydd unrhyw ffurf ar gyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw'r cynllun hwn yn delio'n benodol ag ef, yn cael ei wneud mewn modd sy'n gyson ag egwyddorion cyffredinol y cynllun hwn.

Byddwn yn gweithredu yn unol â chynghor y Bwrdd ar *Ddeddf yr Iaith Gymraeg*, *Deddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol*.

Pan fyddwn yn rhyddhau gwybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth neu'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol, byddwn yn ei chyfieithu i ddewis iaith yr ymgeisydd a bwrw bod nifer y geiriau i'w chyfieithu yn llai na chant.

Monitro

Byddwn yn monitro'n cynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn, a hynny yn erbyn targedau a osodir yn y cynllun gweithredu. Byddwn yn adrodd i'r uwch reolwyr ar y cynnydd hwnnw. Bydd ein gweithdrefnau monitro ac adrodd cyfredol yn cynnwys cyfeiriadau at gynnydd i gyflawni'r cynllun hwn, fel y bo'n briodol. Byddwn yn adrodd i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ein cynnydd o ran cyflawni'r cynllun hwn, pan fyddant yn gofyn am hynny.

Ein targed yw sicrhau ein bod yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn cyn pen pedair blynedd wedi iddo ddod i rym. Byddwn yn defnyddio proses hunanasesu, i'w phennu gyda'r Bwrdd, er mwyn monitro cynnydd yn erbyn y targed hwn.

Adolygu ac Addasu'r Cynllun

Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn cyn pen pedair blynedd wedi iddo ddod i rym. Gall fod angen hefyd i ni adolygu'r cynllun, neu gynnig ei addasu oherwydd newid yn ein swyddogaethau, neu i'r amgylchiadau rydym yn gweithredu'r swyddogaethau hynny ynddynt neu am unrhyw reswm arall. Ni wneir newidiadau i'r cynllun hwn heb gymeradwyaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cwynion ac Awgrymiadau ar gyfer Gwelliannau

Bydd yr adrannau unigol yn delio â chwynion ynghylch agweddau penodol ar weithredu'r Cynllun. Mae'r Adran Strategaeth yn croesawu awgrymiadau gan y cyhoedd neu gan staff ar sut y gellid gwella gweithredu'r Cynllun. Gwerthusir y rhain a bydd y sawl a gyflwynodd yr awgrym yn cael gwybod beth yw'r canlyniad.

Dylid cyfeirio cwynion am y cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer gweld, i'r uwch reolwr o staff sy'n gyfrifol am y cynllun, yn y cyfeiriad canlynol:

Cydlynnydd y Cynllun Iaith Gymraeg

Adran Strategaeth

Yr Adran dros Ddiwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon

2 Cockspur Street,

Llundain

SW1Y 5DH

enquiries@culture.gsi.gov.uk

Byddwn yn cydweithredu â'r Bwrdd er mwyn datrys cwynion ac yn ystod unrhyw Ymchwiliadau a geir o dan Adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg.



department for
**culture, media
and sport**

2-4 Cockspur Street
Llundain SW1Y 5DH
www.culture.gov.uk